cwmni Egino

# GWIREDDU'R POTENSIAL NIWCLEAR

Adroddiad o'r gynhadledd

Paratowyd gan Co-Production Lab Wales

Chwefror 2025




# CYNNWYS

CYFLWYNIAD ..... 3

SGILIAU A DYSGU YNG NGOGLEDD CYMRU ..... 5

ISADEILEDD HANFODOL AR GYFER NIWCLEAR YNG NGOGLEDD CYMRU ..... 7

PARTNERIAETHAU YNG NGOGLEDD CYMRU ..... 9

CADWYN GYFLENWI GOGLEDD CYMRU ..... 11

BUDDION CYMUNEDOL ..... 13

BETH SYDD AR OGLEDD CYMRU EI ANGEN? ..... 15

ADDEWIDION GWEITHREDU ..... 16

# CYFLWYNIAD

## Roedd GWIREDDU'R POTENSIAL NIWCLEAR YNG NGOGLEDD CYMRU yn gynhadledd llawn gweithgareddau creadigol a thrafodaethau cyfoethog, i gyd yn canolbwyntio ar sut y gall Gogledd Cymru fanteisio ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau a datblygiadau niwclear yn awr ac yn y dyfodol.

Cynhaliwyd y digwyddiad gan Gwmni Egino, mewn partneriaeth â Fforwm Niwclear Cymru, yn Iard Hendre ar gyrion Bangor. Fe'i mynychwyd gan oddeutu 70 o randdeiliaid o bob rhan o'r sector niwclear a thu hwnt, a chydag amrywiaeth enfawr o safbwyntiau ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu ar draws y rhanbarth.

Yn greadigol ac yn rhyngweithiol drwyddi draw, agorodd y diwrnod gyda 'Chwis Tafarn' i brofi gwybodaeth y mynychwyr am hanes niwclear Gogledd Cymru, ac ehangder y cyfleoedd presennol i'r rhanbarth y yn sector ynni carbon isel.

Wedi hynny, yn ystod y dydd, cymerodd y cynrychiolwyr ran mewn cyfres o sesiynau trafod, gan edrych yn fanylach ar:

SGILIAU A DYSGU: a sut y gallwn ddatblygu gweithlu medrus i elwa ar gyfleoedd gyrfa yn y sector niwclear yng Ngogledd Cymru.

ISADEILEDD HANFODOL: a lle gallai buddsoddiad strategol yn ein seilwaith sicrhau'r budd mwyaf.

PARTNERIAETH: a sut y gall partneriaid weithio'n fwyaf effeithiol gyda'i gilydd a'u cymunedau i wella'r cyfleoedd a gyflwynir i ni.

Y GADWYN GYFLENWI: a'r hyn y gellir ei wneud i helpu fusnesau newydd, meicrofusnesau a BBaCHau i elwa o'r gadwyn gyflenwi niwclear.

BUDDION CYMUNEDOL: a sut y gall datblygiadau niwclear ddelifro buddion cynaliadwy a hirdymor i bawb yng Ngogledd Cymru.

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Edward Thomas Jones, Prifysgol Bangor, ar ganfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gan Gwmni Egino i sut y gellir sicrhau buddion cymunedol o brosiectau seilwaith ynni mawr.

Ar ôl pob un o'r sesiynau trafod, bu'r mynychwyr yn ystyried ar y cyd 'Beth sydd ei angen ar Ogledd Cymru?' gan gyd-ddiffinio 'maniffesto byr' ar gyfer gweithredu cadarnhaol yn y rhanbarth. Wrth i'r digwyddiad ddod i ben, rhannodd pob un ei addewid personol ei hun ar gyfer gweithredu, y pethau syml o fewn eu rhodd a allai gyfrannu at alluogi Gogledd Cymru i fanteisio ar y cyfle niwclear, yn awr ac yn y dyfodol.

Cafwyd cefnogaeth i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau'r diwrnod gan ymgynhgorwyr o Useful Projects, Ynys Resources yn ogystal â Co-Production Lab Wales sydd hefyd wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn. Dros y tudalennau nesaf, mae'r adroddiad yn nodi'r prif themâu a drafodwyd, y 'maniffesto byr' a grewyd ar y cyd, a'r addewidion personnol a raddwyd ar y diwrnod.


cwmni
Egino

# 1. SGILIAU A DYSGU YNG NGOGLEDD CYMRU

## Sut allwn ni ddatblygu gweithlu medrus i elwa ar gyfleoedd gyrfa yn y sector niwclear yng Ngogledd Cymru?

Yn ystod y sesiwn drafod ar sgiliau a dysgu, gofynnwyd i'r mynychwyr feddwl am eu sgiliau, profiadau dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain er mwyn ystyried beth sydd bwysicaf o ran cefnogi dilyniant gyrfa cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Ngogledd Cymru. Gan eistedd mewn grwpiau o dri, gofynnwyd iddyn nhw gymryd eu tro i gyfweld â'i gilydd, gydag un person yn cyfweld, un yn cael ei gyfweld, ac un yn gwneud nodiadau. Seilwyd pob cyfweliad ar yr un set o gwestiynau:

1. **BETH YW'R SGILIAU A'R CYMWYSTERDAU A HELPODD I DDOD Â CHI I LE'R YDYCH HEDDIW?**
2. **BETH YW'R RHWYDWEITHIAU A'R CYSYLLTIADAU A HELPODD I DDOD Â CHI I LE'R YDYCH HEDDIW?**
3. **BETH YW'R ANGERDD A'R NODWEDDION PERSONOL A HELPODD I DDOD Â CHI I LE'R YDYCH HEDDIW?**
4. **BETH YW'R RHWYSTRAU A ALLAI FOD WEDI EICH HATAL RHAG BOD YMA HEDDIW, A SUT YDYCH CHI WEDI LLWYDDO I'W GORESGYN?**
5. **WRTH FEDDWL AM EICH SIWRNE DDYSGU EICH HUN, BETH YW'R PETH MWYAF ARWYDDOCAOL SY'N SEFYLL ALLAN I CHI?**

Yn dilyn eu cyfweliadau, bu'r mynychwyr yn myfyrio ar yr elfennau tebyg a gwahanol o'u profiadau, a beth oedd y gwersi allweddol i unrhyw un sy'n ceisio dilyn gyrfa yn y sector ynni carbon isel yng Ngogledd Cymru heddiw.



# Y PRIF BWYNTIAU...

Ar draws y sgyrsiau, daeth pum prif thema i'r amlwg:

**SGILIAU SYLFAENOL:** nid oes un math o gefndir na llwybr gyrfa yn benodol sy'n eich paratoi orau ar gyfer gyrfa yn y sector. Fodd bynnag, yr hyn sydd gan bob llwybr yn gyffredin yw pwysigrywdd sgiliau sylfaenol (a throsglwyddadwy iawn) mewn arweinyddiaeth, cyfathrebu a rheoli prosiectau – ynghyd ag ystod eang o gymwyseddau technegol.

**GORESGYN RHWYSTRAU:** roedd y rhwystrau i gynnydd a drafodwyd yn cynnwys cyfleoedd gwaith cyfyngedig yng Ngogledd Cymru, ac ansicrwydd ynghylch buddsoddiad mewn niwclear yn y rhanbarth. Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg dealltwriaeth a chefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ynni niwclear fel rhywbeth a allai atal pobl rhag bod eisiau dilyn gyrfa yn y sector, a nodwyd fod mae angen mwy o amrywiaeth ar draws y sector.

**LLWYBRAU ADDYSGOL:** mae llwybrau academaidd a galwedigaethol mor ddilys â'i gilydd ar gyfer gyrfa yn y sector. Mae hynny'n adlewyrchu'r amrywiaeth o rolau sy'n y diwydiant niwclear a'i gadwyn cyflenwi. Mae prentisiaethau lawn mor werthfawr â chymhwyster gradd, ac mae hyfforddiant ymarferol a phrofiad yn arbennig o bwysig.

**RHWYDWEITHIO:** mae rhwydweithiau proffesiynol cryf yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddatblygiad gyrfa, gyda'r mynychwyr wedi elwa o'u cyfranogiad mewn digwyddiadau fel hyn a'u haelodaeth o gymdeithasau proffesiynol. Roedd partneriaethau a digwyddiadau rhanbarthol yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer dysgu, rhannu gwybodaeth, a chreu cyfleoedd cydweithredol.

**ANGERDD:** mae angerdd am y sector a'r rhanbarth yn hanfodol ar gyfer gyrfa hir a phleserus. Roedd gan y mynychwyr ymrwymiad amlwg i Ogledd Cymru, ei iaith, y bobl a'r diwylliant, ac yn awyddus i sicrhau effaith bositif a hirhoedlog.



Ar y cyfan, yr elfennau pwysicaf a nodwyd gan y mynychwyr mewn perthynas â'u cynnydd gyrfaol eu hunain oedd profiad ymarferol, dyfalbarhad, a'r sgiliau a'r cysylltiadau cywir. Roedd pwyslais cryd ar gydweithio, safbwyntiau amrywiol, a'r angen am ddysgu gydol oes.


# 2. ISADEILEDD HANFODOL AR GYFER NIWCLEAR YNG NGOGLEDD CYMRU

## Lle gall buddsoddiad strategol yn ein hisadeiledd sicrhau'r budd mwyaf?

Yn ystod y sesiwn ar isadeiledd hanfodol, bu'r mynychwyr yn ystyried 'isadeiledd ynni' Gogledd Cymru, a lle y gallai buddsoddiad a datblygiad strategol sicrhau'r budd mwyaf. Ystyriwyd yr 'isadeiledd ynni' hwn yn yr ystyr ehangaf, o gynhyrchu ynni i'n rhwydwaith trafnidiaeth, ac o'n cysylltedd digidol i'n darpariaeth addysgol: hynny yw, unrhyw ased sy'n galluogi economi ynni Gogledd Cymru.

Plotiodd y grwpiau asedau presennol a'r rhai dymunol ar fap o Ogledd Cymru gan ystyried y canlynol:

1. LLE MAE 'ISADEILEDD YNNI' YN BODOLI AR HYN O BRYD, A LLE MAE CRYFDERAU NATURIOL Y RHANBARTH.
2. LLE MAE ANGEN BUDDSODDI YN (A DATBLYGU) EIN 'HISADEILEDD YNNI'.
3. LLE GELLID DATBLYGU A CHRYFHAU'R CYSYLLTIAD RHWNG ISADEILEDD PRESENNOL (AC ARFAETHEDIG).
4. LLE MAE NODWEDDION DAEARYDDOL GOGLEDD CYMRU A CHANOLFANNAU POBLOGAETH) YN CYYNGU AR A/NEU'N DYLANWADU AR DDATBLYGIAD ISADEILEDD YNNI.



# Y PRIF BWYNTIAU...

Trwy eu trafodaethau, tynnodd cynrychiolwyr sylw at ystod o gryfderau, gwendidau a meysydd blaenoriaeth mewn perthynas ag isadeiledd hanfodol yng Ngogledd Cymru.

**CRYFDERAU:** amlygwyd amrywiaeth o elfennau sy'n gwneud Gogledd Cymru yn lle deniadol i fuddsoddi yn yr economi ynni carbon isel, gan gynnwys ei ystadau diwydiannol (er enghraifft yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy), Ardal Fuddsoddi Gogledd Cymru a'r Porthladd Rhydd arfaethedig, cysylltiadau trafnidiaeth cryf gyda Gogledd-orllewin Lloegr. Trwy ein prifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant eraill, mae'r 'isadeiledd sgiliau a dysgu' mewn sefyllfa dda i addasu ac ymateb, os a phryd y gwneir ymrwymiad i fuddsoddiad niwclear i'r rhanbarth.

**GWENDIDAU:** mae'r ardaloedd lle y gallai'r rhanbarth gael ei ddal yn ôl gan yr isadeiledd presennol yn cynnwys diffyg maes awyr rhanbarthol, rhwydwaith trafnidiaeth sydd heb ei ddatblygu'n ddigonol, cysylltedd digidol gwael a diffyg tai fforddiadwy yng nghyffiniau safleoedd allweddol ar gyfer datblygu niwclear. Nodwyd fod pwysau ar rannau o'r isadeiledd presennol, er enghraifft, y rhwydwaith ffyrdd o amgylch pontydd Menai a Britannia.

**CYFLEOEDD:** nodwyd cyfleoedd eang i wella isaedileddd trwy adeiladu cynghreiriau cryf ar draws sectorau, gan ddefnyddio cyrff rhanbarthol newydd fel y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a'r potensial am fuddsoddiad strategol i raglenni pŵer, trafnidiaeth a chysylltedd digidol allweddol.

At ei gilydd, pwysleisiwyd yr angen am sicrwydd er mwyn medru cynllunio a gwneud penderfyniadau mwy strategol ar gyfer buddsoddi



# 3. PARTNERIAETHAU YNG NGOGLEDD CYMRU

## Sut y gall partneriaid weithio'n fwyaf effeithiol gyda'i gilydd a'u cymunedau i wella'r cyfleoedd a gyflwynir i ni?

Yn ystod y sesiwn yma, gofynnwyd i'r grwpiau ddychmygu eu bod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth bartneriaeth ar gyfer datblygiad niwclear newydd mewn tref ffuglennol gan ystyried y canynol?

**PWY**
fyddai'r parnteriaid

**BETH**
fyddai pob partner yn ei gyfrannu at y bartneriaeth

**BETH**
fyddai'n ei gwneud yn haws i bob partner gyfrannu

**BETH**
ddylid ei osgoi er mwyn i'r bartneriaeth ffynnu

Arweiniodd y trafodaethau at greu matrics 'Pwy Beth-Beth-Beth', gan nodi sut y gallai sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd yn fwyaf effeithiol (a gyda'u cymunedau) i wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiadau o'r fath.



# Y PRIF BWYNTIAU...

Crynhoir isod y weledigaeth gyffredinol ar gyfer partneriaeth ynghyd ag egwyddorion arweiniol a nodwyd ar gyfer cydweithio llwyddiannus...

**Rhagwelir tref lle mae partneriaethau'n cael eu hadeiladu ar sail ymddiriedaeth, tryloywder a chyd-bwrpas, gan greu cyfleoedd ar gyfer twf, sefydlogrwydd a llwyddiant i bawb. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod pob prosiect a menter yn cyfrannu at ffyniant a lles pobl ein tref a chenedlaethau'r dyfodol.**

Byddwn yn cyflawni hyn trwy sicrhau:

**PWRPAS CLIR AC UNEDIG:** gyda nodau a chynlluniau cydlynol a ffocws ar y tymor hir.

**CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU:** gyda chyfathrebu agored a thryloyw wrth galon y bartneriaeth, a digon o gyfle i feithrin deialog, ymgysylltiad a dealltwiraeth.

**CYD-GYNHYRCHU:** grymuso lleisiau lleol a sicrhau bod pob aelod o'r cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Byddai partneriaethau'n canolbwyntio ar ddarparu buddion nid yn unig i ddiwydiannau penodol ond i'r gymuned ehangach.

**BUDDSODDI MEWN POBL:** gan gynnwys datblygu sgiliau, creu swyddi a rhannu gwybodaeth, i gefnogi'r gweithlu a chryfhau'r gallu i lwyddo.

**YMDDIRIEDAETH A PHARCH AT EIN GILYDD:** ymdrech ragweithiol i adeiladu ymddiriedaeth, gyda chyfathrebu gonest a pherthnasau sy'n seiliedig ar barch at y naill a'r llall, tegwch, ac ymrwymiad i fuddion a rennir.

At ei gilydd, ystyriwyd eglurder parthed bwriadau, cyfathrebu clir, cefnogaeth leol ac ymrwymiad i fuddion cyffredin yn hanfodol i lwyddiant.




# 4. CADWYN GYFLENWI GOGLEDD CYMRU

**Yn ystod y sesiwn yma, gwnaethpwyd ffurf ar ddadansoddiad SWOT. Gan ystyried profiadau busnesau newydd, meicrofusnesau a busnesau bach o ran cael mynediad i'r gadwyn gyflenwi yng Ngogledd Cymru, mapiwyd y canlynol :**



Y **'MYNYDDOEDD'**: popeth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ac yn galluogi busnesau i gael mynediad i'r gadwyn gyflenwi.



Y **'CORSYDD'**: popeth sy'n dal busnesau yn ôl ac yn eu rhwystro rhag cael mynediad i'r gadwyn gyflenwi.



Yr **'AFONYDD'**: y pethau sy'n gallu sbarduno newid cadarnhaol a chludo pobl o'r gors i'r mynydd.

# Y PRIF BWYNTIAU...

## MYNYDDOEDD

Ffactorau sy'n cryfhau cyfloedd i'r gadwyn gyflenwi:

**CEFNOGAETH GAN Y LLYWODRAETH:** gwasanaethau fel Busnes Cymru yn helpu busnesau bach i adnabod a manteisio ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi.

**GWEITHLU MEDRUS:** mae Gogledd Cymru yn elwa o weithlu medrus yn y sector niwclear, wedi'i ategu gan sgiliau trosglwyddadwy o sectorau eraill.

**TREFTADAETH:** treftadaeth niwclear hirsefydlog sy'n darparu sylfaen gref ar gyfer twf yn y dyfodol.

**CYDWEITHIO:** mae llawer o rwydweithiau cefnogol yn bodoli eisoes ac yn cysylltu pobl a gwella integreiddiad y gadwyn gyflenwi.

**CEFNOGAETH WLEIDYDDOL:** eiriolaeth dros niwclear ynddo'i hun yn helpu i greu mwy o gyfleoed.

## CORSYDD

Ffactorau sy'n rhwystro cyfloedd i'r gadwyn gyflenwi:

**PRINDER SGILIAU:** gwrthbwynt i weithlu medrus yw'r risg o golli talent leol yn sgil methiant Wylfa Newydd, a llawer o fusnesau llai ddim yn barod ar gyfer y gofynion penodol ar gyfer gweithio yn y sector niwclear.

**RHWYSTRAU RHEOLEIDDIOL:** fframweithiau rheoleiddio cymhleth a gofynion achredu'r sector yn ei gwneud hi'n anodd i fusnesau llai ymuno â'r gadwyn gyflenwi.

**ANSICRWYDD:** o ran amserlenni a thechnolegau, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i fusnesau fuddsoddi eu hadnoddau eu hunain wrth baratoi i ymateb i gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi yn y dyfodol.

**LOGISTEG:** isadeliedd trafnidiaeth yn creu heriau o ran logisteg ac yn effeithio ar effeithlonrwydd a hyfywedd darpar brosiectau.

## AFONYDD

Ffactorau a allai gyfrannu at gyflawni newid positif:

**DATBLYGU'R GWEITHLU:** buddsoddi mewn prentisiaethau, cynlluniau hyfforddi a rhaglenni uwchsgilio ar gyfer busnesau bach.

**CYDWEITHIO PELLACH:** gall partneru â chwmnïau sefydledig a chydweithio â chyrff fel Bwa Niwclear y Gogledd Orllewin greu cyfleoedd busnes newydd a mynediad at gadwyn gyflenwi ehangach.

**CYLLID A CHYMHELLION:** i helpu i fusnesau a addasu er mwyn cael mynediad i'r gadwyn gyflenwi, cwrdd â safonau'r diwydiant, ac ymateb yn effeithiol i gyfleoedd tendro.

**PROFFIL Y SECTOR:** o ystyired rôl hanfodol y sector niwclear mewn trosglwyddo i economi carbon isel, mae sgô i wella delwedd gyhoeddus y sector a thrwy hynny, ddenu talent newydd i'r sector.

# 5. BUDDION CYMUNEDOL

## Sut gall datblygiadau niwclear sicrhau buddion cynaliadwy a hirhoedlog i bawb yng Ngogledd Cymru?

Yn y sesiwn ar fuddion cymunedol, mi ddechreuon ni drwy ofyn 'Sut all pobl, lleoedd ac economi Gogledd Cymru elwa o ddatblygiad niwclear?'

O'r fan honno, gofynnwyd i'r mynychwyr rannu eu profiadau o fyw yng Ngogledd Cymru, a/neu weithio ym maes datblygu niwclear.

Trafodwyd:

- **Sut y gallai ac y dylai Gogledd Cymru elwa o ddatblygiad niwclear,**
- **Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol i greu buddion, ac,**
- **Yr hyn nad yw weithio gweithio cystal.**

Fe'u hanogwyd i feddwl y tu allan i'r bocs, y tu hwnt i fanteision economaidd-gymdeithasol traddodiadol fel swyddi a sgilia gan ystyried pa fath o fentrau fyddai'n galluogi pobl a lleoedd i ffynnu, a'r hyn sydd ei angen i wneud i hynny ddigwydd.

Dosbarthwyd y sylwadau a syniadau'n ymwneud â buddion o dan dri chategori  - pobl, lleoedd, a'r economi.



# Y PRIF BWYNTIAU...

## POBL


Ffyrdd y gallai datblygiad niwclear ddod â buddion yn fwyaf effeithiol i bobl:

- Creu nid yn unig swyddi ond gyrfaoedd
- Meithrin cydweithio ar draws a rhwng sefydliadau a chymunedau.
- Cefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael gwaith a chyfleoedd.
- Hyrwyddo twf carbon isel cynaliadwy gydag integreiddio cymunedol

## LLEOEDD

Ffyrdd y gallai datblygiad niwclear ddod â buddion yn fwyaf effeithiol i leoedd:

- Denu buddsoddiad mewnol.
- Hwyluso gwelliannau isadeiledd.
- Hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol, diogelu treftadaeth a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.
- Buddsoddi mewn mentrau celfyddydol, hamdden ac amgylcheddol.
- Lleihau costau ynni yn ardal y datblygiadau.




## YR ECONOMI

Ffyrdd y gallai datblygiad niwclear ddod â buddion yn fwyaf effeithiol i'r economi:

- Annog cydweithio rhwng busnesau.
- Gwella amrywiaeth y cyfleoedd gwaith sydd ar gael mewn cymunedau, cadw a denu talent.
- Gwella isadeiledd trafnidiaeth lleol.
- Darparu ymrwymiad hirdymor sy'n ysgogi twf economaidd ehangach a pharhaus.

Nodwyd ei bod yn bwysig deall y buddion cynhenid, ymgorfforedig ac ychwanegol y gall datblygiadau niwclear eu creu.

# BETH SYDD AR OGLEDD CYMRU EI ANGEN?

Gan grynhoi'r casgliadau o bob sesiwn drafod, cyd-ddiffiniwyd datganiadau o'r hyn y mae 'Gogledd Cymru ei angen' - y math o bethau a fyddai, ym marn y grwpiau, yn meithrin yr effaith fwyaf o ran 'manteisio ar y cyfle niwclear'.

Daeth pum prif thema i'r amlwg ar draws y datganiadau hyn – sy'n rhoi sylfaen ar gyfer 'maniffesto gweithredu' ar gyfer y rhanbarth.

| | |
|---|---|
| **STRATEGAETH A SICRWYDD HIRDYMOR** | Mae ar Ogledd Cymru angen cynllun strategol hirdymor sy'n rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i wneud penderfyniadau, buddsoddi ac amserlennu prosiectau, waeth pa newidiadau gwleidyddol a fydd. |
| **CYDWEITHIO AC ARWEINYDDIAETH** | Mae ar Ogledd Cymru angen arweinyddiaeth gref, partneriaethau agored, a chydweithio traws-sector i hyrwyddo buddiannau'r rhanbarth. |
| **DATBLYGU A DAL GAFAEL AR SGILIAU** | Mae ar Ogledd Cymru angen dull cydgysylltiedig o ddatblygu sgiliau, gyda phrosiectau sy'n cadw gweithwyr medrus yn yr ardal, yn denu graddedigion yn ôl, ac yn sicrhau gweithlu dawnus ar gyfer y dyfodol. |
| **BUDDSODDIAD A BUDDION CYMUNEDOL** | Mae ar Ogledd Cymru angen strategaeth hirdymor, gydgysylltiedig i sicrhau bod datblygiad isadeiledd, swyddi newydd a buddion cymunedol wrth wraidd twf a buddsoddiad rhanbarthol. |

# ADDEWIDION GWEITHREDU...

Gofynnwyd i bob un o'r mynychwyr pa gamau y bydden nhw'n bersonol yn eu cymryd i helpu Gogledd Cymru i fanteisio ar y cyfle niwclear, yn awr ac yn y dyfodol.

Gellir categoreiddio'r addewidion o dan chwe thema, dyma rai enghreifftiau o'r hyn ddywedodd mynychwyr ar ddiwedd y digwyddiad...




| | |
|---|---|
| ARWEINYDDIAETH A BLAENGAREDD | "Byddaf yn hyrwyddo cryfder yr ewyllys i gyflawni prosiect niwclear mawr yng Ngogledd Orllewin Cymru ar y cyd – rydym ei eisiau a gallwn ei wneud!" |
| CYDWEITHIO A PHARTNERIAETH | "Byddaf yn hyrwyddo 'Siarter Diwydiant Gogledd Cymru' i ddod â diwydiant/ prosiectau ynghyd i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i fanteisio ar y cyfle." |
| EIRIOLAETH A HYRWYDDO | "Byddaf yn lobïo llywodraethau'r DU a Chymru i beidio â thorri eu haddewid i ddod â niwclear newydd i Gymru." |
| RHWYDWEITHIO A RHANNU GWYBODAETH | "Byddaf yn mynychu mwy o'r digwyddiadau hyn!" |
| BUDDION CYMUNEDOL A GWERTH CYMDEITHASOL | "Sicrhau bod ein sefydliad yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau, sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl, a bod yn bartner gweithredol wrth lunio dyfodol y rhanbarth." |
| DATBLYGIAD ECONOMAIDD A THWF RHANBARTHOL | "Byddaf yn parhau i weithio i ddatblygu diwydiant niwclear Gogledd Cymru a chynyddu safonau byw ar gyfer ein cymunedau." |

cwmni Egino

AM FWY O WYBODAETH, NEU I DRAFOD YR ADRODDIAD HWN, ANFONWCH EBOST AT:

GWYBODAETH@CWMNIEGINO.WALES

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government